


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Hydref 11 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, June Jones (Cynghorydd Sir Gwynedd), Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

162.10.22. Ymddiheuriadau :- Cynghorwyr : Sandra Bodden Jones, Llinos Murphy, Keith Roberts

163.10.22. Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy gyfeirio at ebost yr oedd wedi ei dderbyn gan Cyng Keith Roberts yn ymddiheuro am ei absenoldeb heno ac yn ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref oherwydd oblygiadau gwaith a chyfrifoldebau eraill. Cyfeiriodd wedyn at dudalen flaen rhifyn mis Medi o'r Wylan oedd yn llongyfarch sawl un o bobl ifanc yr ardal am eu llwyddiant mewn gwahanol feysydd. Roedd y Cadeirydd yn dymuno ategu – ar ran y Cyngor Tref – y llongyfarchiadau i'r bobl ifanc yma. Dywedodd fel yr oedd y bobl ifanc yma yn esiampl wych i'w cyfoedion o beth ellir ei gyflawni drwy hyfforddi a gweithio'n galed i wireddu eu potensial. Diolchodd iddynt am eu gwaith caled ac i'w hyfforddwy a'u rhieni am eu cefnogaeth. Roedd yn dymuno'n dda iddynt yn eu diddordebau gwahanol ac roedd hi'n wych cael clywed am eu llwyddiant.

Roedd am ddiolch hefyd i'r Wylan am godi ymwybyddiaeth am newyddion am lwyddiannau pobl ifanc lleol. Dywedodd fel yr oedd Yr Wylan yn bapur bro swmpus a phwysig iawn i'r ardal leol ac roedd yn annog pawb i'w ddarllen.

Dywedodd fel yr oedd hi'n gyfnod trawsnewidiol rhwng dau gyfnod gwyliau lle mae hi yn dal yn brysur gydag ymwelwyr hŷn cyn y don nesaf yn ystod gwyliau hanner tymor. Roedd yn mynegi ei anniddigrwydd ynglyn â'r goleuadau traffig fu yn ddiweddar ar Ffordd Penamser wrth ymyl Tudor Lodge lle gosodwyd goleuadau am gyfnod prysur iawn lle nad oedd dim yn cael ei wneud yno.

Roedd hyn yn rhwystr di-angen mewn cyfnod o draffig trwm dros Wyl y Banc.

Gorffenodd trwy ddatgan cydymdeimlad ar ran y Cyngor Tref i Mrs Elspeth Thomas ar ei phroffedigaeth o golli ei gŵr, Elwyn Thomas yn ddiweddar. Roedd Mr Elwyn Thomas yn gyn aelod o'r Cyngor Tref ac yn uchel ei barch yn y gymdeithas leol.

164.10.22. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Medi 13 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Cyfarfod Arbennig Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo Hydref 4 2022 a Chyfarfod Gweithgor Datblygu Hydref 4 2022

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir a gweithredu ar argymhellion yr Is-bwyllgor yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

165.10.22. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Selwyn Griffiths – Mater 195.10.22 - Cais Cynllunio Glan y Môr

Cyng Llywelyn Rhys – mater 189.10.22 Gohebiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

Cynigion a gytunwyd i'w dwyn gerbron yng nghyfarfod y Cyngor Medi 13 :-

166.10.22. Penderfynu ar gydnabyddiaeth i anrhydeddu llwyddiant Medi Harris

Cytunwyd na fyddai'n gyfreithiol i'r Cyngor Tref roi rhodd ariannol i Medi am ei llwyddiant felly penderfynwyd yn hytrach comisiynu darn o waith celf fyddai'n rhywbeth i'w gadw am byth ganddi. Trafodwyd y posibilrwydd o waith llechen ond teimlwyd fod darn o waith celf gwydr gan Bill Swan yn fwy addas iddi.

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu â Bill Swann i drafod y posibilrwydd o gomisiynu darn o waith gwydr ganddo fel rhodd i Medi Harris, yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

167.10.22. Enwebu Medi Harris ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2023

Cynhwyswyd gwybodaeth am y wobr yma yng ngohebiaeth cyfarfod mis Medi ond nid yw'r dyddiad cau tan 31.10.22.

Penderfynwyd :- y Clerc i lenwi'r ffurflen enwebu ar ran y Cyngor Tref a'i gyflwyno erbyn y dyddiad cau.

168.10.22. Penderfynu ar sut i weithredu i hyrwyddo Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn ardal Porthmadog

Penderfynwyd :- trafod y mater yma gyda Gohebiaeth 16 (mater 187.10.22)

169.10.22. Penderfynu ar sut i weithredu i ddenu mwy o ymgeiswyr ar gyfer eu Cyfethol yn Gynghorwyr

Cafwyd trafodaeth am y trafferthion cyffredinol o ddenu Cynghorwyr newydd i ymuno â'r Cyngor Tref. Cafwyd ambell awgrym am unigolion fyddai'n fodlon ymgymryd â'r swydd. Nododd y Clerc fod Hysbysiad am 5 sedd wag yn yr hysbysfyrdau ac ar y wefan a bod hysbyseb wedi mynd i'r Wylan ar gyfer rhifyn mis Hydref hefyd.

Penderfynwyd :- pob Cynghorydd i siarad gyda'u etholwyr er mwyn ceisio denu ymgeiswyr a'r Cyng Alwyn Gruffydd i ddrafftio erthygl am waith a dyletswyddau Cynghorydd Tref er mwyn ei roi gerbron y Cyngor Tref cyn ei rannu gyda'r wasg leol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Michael Roberts yn eilio.

170.10.22. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Tachwedd 8 2022 = Hydref 29 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Selwyn Griffiths** – Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Ganolfan
- **Cyng Alwyn Gruffydd** – Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Clwb Chwaraeon

171.10.22. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

GOHEBIAETH :-

172.10.22 -SION EVANS – CLERC CAERNARFON-Cynllun “ O law i law”

Cytunwyd mewn egwyddor fod yn syniad yn un clodwiw gan fod teuluoedd yn ei chael hi'n anodd i gael dau ben llinyn ynghyd ond mynegwyd pryderon ynglyn â sut fyddai'r cynllun yn cael ei weinyddu. Nodwyd bod nifer helaeth o siopau elusen yn bodoli yn barod ar Stryd Fawr Porthmadog ac y byddai hi'n anodd dod o hyd i leoliad addas ac yn wir gwirfoddolwyr i redeg y siop. Cytunwyd ei bod hi'n ormod o gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Cyngor Tref i weithredu cynllun o'r fath.

Penderfynwyd :-

- Y Clerc i ddiolch i Sion Evans am y wybodaeth ac i'w wahodd i Borthmadog i rannu ei syniadau efo cymdeithasau lleol

- cysylltu efo Arloesi Gwynedd Wledig i holi tybed fydden nhw'n fodlon cydgordio'r cynllun trwy gysylltu â grwpiau lleol i adnabod yr anghenion yn lleol
- y Cyngor Tref i gyfrannu drwy dalu am logi ystafell yn y Ganolfan i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

173.10.22 -YSGOL BORTH Y GEST-Ymateb i Coedio Bodawen
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

174.10.22 -TAL MICHAEL- Cyngor ar bopeth

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am y llythyr; hefyd awgrymu iddynt wneud cais ffurfiol am gyfraniad pan fydd y Cyngor Tref yn ystyried a thrafod cyfraniadau yn ystod cyfarfod mis Chwefror yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

175.10.22 -TAL MICHAEL -Tabl Porthmadog – Ystadegau Allweddol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

176.10.22 -CATRIN HUGHES C.G.-Cynllun Peilot ardal Dwyfor

Cytunwyd y dylid derbyn pob cynnig i drafod ymhellach y sefyllfa dai ym Mhorthmadog oherwydd fod natur a thirwedd yr ardal yn dod a phroblemau sy'n unigryw i ardal Porthmadog ac yn ei gwneud yn wahanol i ardaloedd eraill cyfagos.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a derbyn y cynnig ganddi i ddod i siarad â'r Cyngor yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio. Bydd y Clerc yn trefnu dyddiad maes o law. (gweler 193.10.22 isod)

177.10.22 -BARRY DAVIES C.G.-Ymateb i 157.9.22 Jetskis

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

178.10.22 -BARRY DAVIES-Ymateb i 121.9.22 Jac yr Undeb

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

179.10.22 -BARRY DAVIES-Ymateb i 144.9.22 traeth Morfa Bychan

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a derbyn ei wahoddiad i ddod i siarad â'r Cyngor Tref (gweler 193.10.22 isod)

180.10.22 -UN LLAIS CYMRU-Cynhadledd bioamrywiaeth 27.10.22

Nodwyd bod pob cyfarfod o Un Llais Cymru yn mynd i fod yn rhithiol o hyn ymlaen. Mae'r Cyng Carol Hayes wedi ysgrifennu llythyr o gŵyn atynt ynglyn â hyn ac yn parhau i ddisgwyl am ymateb. Os caiff gadarnhâd mai dyma'r drefn i fod yna bydd yn ymddiswyddo fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar bwyllgor ardal Arfon Dwyfor a bydd rhaid ethol cynrychiolydd arall i gymryd ei lle.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

181.10.22 -STEFFAN JONES C.G.-Ymateb i 134.9.22 cais am fin sbwriel

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am iddo weithredu mor sydyn.

182.10.22 -CARU PORT -Ymateb i gais yr Is-bwyllgor Cyllid /Eiddo am gyfraniad i brynu goleuadau Nadolig

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth – mae'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo eisoes wedi gweithredu ar y cynnig.

183.10.22 -FACTORY SHOP -Ymateb i 137.9.22 – cais i ateb llythyr ers Medi 2021

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

184.10.22 -MABON AP GWYNFOR-Ymateb i 153.9.22 – diffyg deintyddion

Penderfynwyd :-

- Derbyn y wybodaeth gan groesawu'r newyddion cadarnhaol fod y Bwrdd Iechyd am sefydlu cadair ddeintyddol ychwanegol yn yr ardal a'r ffaith eu bod yn bwriadu sefydlu adran Ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor yn y dyfodol agos.
- Y Clerc i ysgrifennu i ddiolch iddo am weithredu ar ran y Cyngor Tref ac i dderbyn ei gynnig i gadw mewn cysylltiad ac i gymeradwyo ei syniad o gynnal cyfarfod cyhoeddus i rannu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf.

yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

185.10.22 -YSGOL EIFION WYN-CYNLLUN COEDIO BODAWEN

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

186.10.22 -SION BRYN ROBERTS-Ymateb i 125.9.22 – Clwb Ieuenctid

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a thrafod y mater ar y cyd â mater 191.10.22.

187.10.22 -GWENLLIAN CARR-Ymateb i 129.9.22 – addurno ar gyfer yr Eisteddfod

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a gyrru'r 2 ebost ymlaen i Iwan Llewelyn Jones – Cadeirydd Pwyllgor Apêl Porthmadog, yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

188.10.22 -ANWEN MAIR JONES C.G.-Ymateb i 144.9.22 Traeth Morfa Bychan

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

189.10.22 -ANDREW BASFORD - CYF.NAT.CYMRU-Ymateb i 154.9.22 - gwahoddiad i roi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Hydref.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i drefnu dyddiad addas fyddai'n rhoi mwy o amser iddo gyflwyno canlyniadau pwysig y gwaith ymchwil. (gweler 193.10.22 isod)

190.10.22 -KIRSTY THOMPSON – GIG CYMRU-Ymateb i 137.9.22 - Tir Model Dairy

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch iddi am y wybodaeth.

191.10.22 -NIA HELED REES C.G.-Cynnig cynnal Clwb Ieuenctid yn Byw'n iach Glaslyn

Roedd yr aelodau wedi derbyn ebost gan Nia Heledd, drwy law'r Clerc, yn gynharach yn y dydd yn egluro nad oedd Canolfan Glaslyn ar gael ar gyfer cynnal Clwb Ieuenctid a bod y gwasanaeth yn hytrach yn cynnig cyfres o 7 sesiwn bob nos Fawrth o 6.30 tan 8.00 yn Neuadd Fawr y Ganolfan o 25.10.22 tan y Nadolig. Cytunwyd fod y cynnig yn un gwerth chweil gan fod y mater o sefydlu Clwb Ieuenctid ym Mhorthmadog wedi cael ei drafod yn helaeth gan y Cyngor Tref yn ddiweddar. Byddai derbyn y cynnig yn gam cadarnhaol iawn i wireddu hyn.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chytuno i gyfrannu trwy dalu am logi'r Neuadd gan werthuso'r sefyllfa ar ddiwedd y gyfres o sesiynau cyn penderfynu ymhellach yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

192.10.22 -SULAIMAN ASLAM-CYFLYMDRA 20m.y.a

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a phob Cynghorydd i ymateb i'r Ymgynghoriad yn unigol erbyn 14.10.22.

193.10.22 Amserlennu Cyfarfodydd Arbennig

Gan fod Barry Davies (C.Gwynedd), Andy Basford (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Sion Bryn Roberts (C.Gwynedd) i gyd wedi cynnig dod i gyfarfod â'r Cyngor ar 8.11.22 cytunwyd fod angen rhoi amser mwy haeddiannol i'r tri er mwyn rhoi chwarae teg iddynt i gyflwyno eu gwybodaeth trwy gynnal Cyfarfodydd Arbennig ychwanegol ar eu cyfer. Cytunwyd mewn egwyddor i wahodd Barry Davies ac Andy Basford i Gyfarfod Arbennig ar nos Fercher Tachwedd 16 a Sion Bryn a Catrin Hughes (Tai) ar nos Fercher Rhagfyr 7.

Penderfynwyd :- y Clerc i gadarnhau'r dyddiadau wrth drefnu ac i'w addasu os bydd angen.

194.10.22 MATERION ARIANNOL:-

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Awst / Medi	£	6.74
------	-----------------------	---	------

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Medi 2022	£	51.36
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Medi 2022	£	867.49
3	Marian Roberts	OI-daliad cyflog Awst 2022	£	17.37
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Medi 2022	£	216.88
5	Marian Roberts	Ad-daliad inc i'r printer	£	18.36
6	Marian Roberts	Ad-daliad am 16 stamp ail ddosbarth	£	10.88
7	Cyngor Gwynedd	Costau Etholiad	£	642.00
8	Y Ganolfan	Cyfarfod Pwyllgor Llawn Medi 13	£	40.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

195.10.22. CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais : C22/0824/44/LL (wedi ebostio 22.9.22)

Lleoliad : Amgueddfa'r Môr Porthmadog Cei Oakley, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU

Bwriad : Gosod bwrdd gwybodaeth

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais : C22/0875/44/LL (wedi ebostio 4.10.22)

Lleoliad : Greenacres Holiday Park Black Rock Sands, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9YF

Bwriad : Newid defnydd tir gwag i ardal storio carafanau yn cynnwys gwaith peiranyddol ac isadeiledd cysylltiedig

Penderfynwyd :- Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol :-

- Mae'n or-ddatblygiad
- Mae'n rhy agos i dai cyfagos
- Byddai'n ymyrryd ar fwynderau trigolion cyfagos
- Byddai'n amharu ar iechyd a lles trigolion cyfagos oherwydd llygredd sŵn a nwyon o'r lorïau
- Byddai'n aflonyddu yn helaeth ar breswylwyr parhaol cyfagos
- Byddai'n cael effaith andwyol ar drafnidiaeth
- Byddai'n creu peryglon traffic wrth ddefnyddio'r fynediad

(c) Rhif Cais : C22/0868/44/TC (wedi ei dderbyn a'i basio ymlaen 10.10.22)

Lleoliad : Maes Pebyll Glan Y Môr, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YH

Bwriad : Defnydd o dir fel safle gwerysyla a carafanau teithiol i hyd at 60 llain (defnyddio gan bebyll a / neu carafanau teithiol a / neu unedau symudol eraill) yn dymhorol rhwng 31 Mawrth a 3 Hydref mewn unrhyw flwyddyn.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35

Marian Roberts
14.10.22

